JONES, CADWALADR (1783 - 1867), gweinidog gyda'r Annibynwyr a golygydd cyntaf Y Dysgedydd

Enw: Cadwaladr Jones
Dyddiad geni: 1783
Dyddiad marw: 1867
Rhiant: Dorothy Cadwaladr
Rhiant: John Cadwaladr
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr a golygydd cyntaf Y Dysgedydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Richard Griffith Owen

Ganwyd Mai 1783 yn y Deildre Uchaf, Llanuwchllyn, unig blentyn John a Dorothy Cadwaladr. Ni bu ei rieni erioed yn perthyn i'r Ymneilltuwyr ac nis cyfrifid yn grefyddwyr amlwg - at yr Eglwys Sefydledig y gogwyddent. Yr oedd ef yn 11 oed pan ddaeth Dr. George Lewis yn weinidog i Lanuwchllyn, ac ef a'i derbyniodd yn aelod yn yr Hen Gapel yn 1803. Dechreuodd bregethu yn 1806, a derbyniwyd ef yr un flwyddyn i athrofa Wrecsam. Ar ei draul ei hun yr aethai yno, gan dreulio'r haf gartref ar y fferm. Yr oedd ' Williams o'r Wern ' a Michael Jones yn gyd-fyfyrwyr ag ef am ran o'r amser. Ym Mai 1811 urddwyd ef yn olynydd i'r Parch. Hugh Pugh, y Brithdir. 'Yr oedd cylch gweinidogaeth H. Pugh yn cyrhaeddyd o'r Garneddwen i Abermaw, ac o Fwlch Oerddrws i ucheldiroedd y Ganllwyd.' Rhoes Cadwaladr Jones i fyny ofalu am Lanelltyd a'r Cutiau yn 1818 a'r Brithdir a Rhydymain yn 1839, gan gyfyngu ei waith i Ddolgellau ac Islaw'r Dref hyd 1858. Ar ôl hynny hyd ei farwolaeth yn 1867 cydlafuriai â'r Parch. E. Davies, Trawsfynydd, yn Llanelltyd, a chyda'r Parch. R. Ellis, Brithdir, yn Nhabor. Claddwyd ef ym mynwent y Brithdir.

Adnabyddid ef fel ' Yr Hen Olygydd ' gan iddo olygu *Y Dysgedydd* o 1821 hyd 1852. Daeth y rhifyn cyntaf allan yn Nhachwedd 1821 dan yr enw *Y Dysgedydd Crefyddol*. Ychydig cyn hynny cyhoeddasai bamffled yn dwyn y teitl *Amddiffyniad o'r Ymneillduwyr, mewn Llythyr at y Parchedig John Elias; yn cynnwys Sylwadau ar ei Lythyr o Ganmoliaeth i Bregethu Mr. Hurrion ar Brynedigaeth*, 1821 (gweler *Cofiant J. Jones, Talsarn*, 470). Ymddengys i John Elias ymosod ar yr Annibynwyr oherwydd eu daliadau athrawiaethol, a hyn, ond odid, fu'n achlysur cychwyn *Y Dysgedydd* gan nifer o weinidogion amlwg yr Annibynwyr ac iddynt ddewis Cadwaladr Jones yn olygydd. Daeth y cyfnodolyn yn arbennig yn faes ymryson ar bynciau diwinyddol. Profodd ei hun yn olygydd medrus a doeth; eto, yr oedd yn annibynnol iawn ei feddwl, ac yn bur benderfynol ei ysbryd (gweler ' Ap Vychan,' *Cadwaladr Jones*, 138). Er mai 'mab ysbrydol' y Dr. George Lewis ydoedd, eto 'daeth yn gefn i Michael Jones ym mrwydr y Sistemau yn y genhedlaeth nesaf' (gweler Jenkins, *Hanes Cynulleidfa Hen Gapel Llanuwchllyn*, 113). Rhyddfrydiaeth a gefnogai mewn gwleidyddiaeth er nad oedd ei ddatganiad yn ddigon pendant gan amryw o'i gyd-Annibynwyr.

Awdur

Y Parchedig Richard Griffith Owen, (1890 - 1973)

Ffynonellau

Robert Thomas, *Cadwaladr Jones, Dolgellau ei fuchedd, ei weinidogaeth, ei ddefnyddioldeb cyffredinol, a phrif linellau ei nodweddiad* (1870)

R. T. Jenkins, *Hanes Cynulleidfa Hen Gapel Llanuwchllyn* (1937), 111, 113, 115, 143, 180

R. T. Jenkins, *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, Cyfrol 1, 1789-1843* (Caerdydd 1933), 96

Album Aberhonddu ... o'r flwyddyn 1755 hyd 1880 (1898), 53

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, i, 457

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Cadwaladr Jones

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732680

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu